

### Diweddariad ar y Deddfwriaeth

- Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru Cyfnod 1 o'i [ymgyngoriad ar y cynigion am reoli pysgodfa cramenogion gyda'r glannau](#). Mae cam cyntaf yr ymgyngoriad yn chwilio am syniadau ar **isafswm maint glanio** cimwch, cimwch coch, cranc coch, cranc heglog a chranc wisgiwr. Mae'r cynigion yn ceisio safoni cyfyngiadau ar isafswm y maint fel y gall maint sengl ar gyfer pob rhywogaeth fod yn gymwys ar gyfer arfordir Cymru i gyd, ac allan hyd at ddeuddeng milltir fôr. Mae'r ymgyngoriad hefyd yn ymdrin â mesurau i **warchod stoc cimychiaid magu** yng Nghymru.

Talodd Seafish a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru am **arolwg o dystiolaeth** am yr arferion gorau mewn rheoli pysgodfeydd cramenogion, er mwyn llywio cynigion Llywodraeth Cymru. Atodir y ddogfen hon er gwybodaeth i chi.

Bydd Cyfnod 2 yr ymgyngoriad yn ymwneud â mesurau cadwriaethol pellach fel **uchafswm maint a bylchau dianc yn y cewyll**. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyflwyno efallai ryw ffurf ar gyfundrefn rheoli. Mae angen mwy o dystiolaeth a gwaith ar y mesurau pellach yma cyn y gellir ymgyngori arnynt. I lywio datblygiad y cynigion hyn, gwahoddir sylwadau gan y diwydiant ar y mesurau eraill hyn yn ystod cyfnod cyntaf yr ymgyngoriad.

**Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw 20 Ebrill 2014.** Anogir pob un sy'n rhan o bysgodfa cramenogion gyda glannau Cymru i ymateb. I edrych ar yr holl ddogfennau ymgyngori ac i roi eich ymateb ewch i: <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/crustaceans-legislation-review-phase-1/?lang=cy>

### Diweddariad gwyddonol y diwydiant

- Treial dwyster pysgota cregyn bylchog — Gwahoddiad i dendro.** Mae Grŵp Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth, Prifysgol Bangor angen ymgysylltu â thua chwe chwch bysgota. Maent eu heisiau er mwyn cynorthwyo mewn ymchwiliad arbrofol i weld beth yw effeithiau gwahanol lefelau o ddwyster pysgota cregyn bylchog ar organebau a chynefin gwely'r môr yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion. Yn y pen draw, rydym eisiau gallu cynghori Llywodraeth Cymru a'r diwydiant pysgota ar lefelau cynladwy posibl o weithgaredd pysgota am gregyn bylchog y gellid ei ganiatáu yn yr ardal hon.

Gwneir yr arbrawf mewn ardaloedd sydd wedi'i diffinio ymlaen llaw ym Mae Ceredigion a bydd faint o bysgota a wneir gan bob cwch yn cael ei gyfarwyddo gan y grŵp pysgodfeydd a Chadwraeth. Cynllunnir y pysgota arbrofol rhwng 1 - 30 Ebrill 2014. Y lleoliad a awgrymir ar gyfer yr arbrawf yw pysgodfa cregyn bylchog sydd wedi bod ar gau i bysgota am bron i bum mlynedd.

Rhaid cyflwyno'r tendrau erbyn hanner dydd, ddydd Mawrth 25 Chwefror 2014. Gellir cael manyleb y tendr a chyfarwyddiadau sut i gyflwyno tendrau ar dudalen gartref gwefan y Grŵp Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/> NEU gellir holi amdanynt drwy anfon cais drwy e-bost at [anwen.williams@bangor.ac.uk](mailto:anwen.williams@bangor.ac.uk) gyda 'Tendr pysgota cregyn bylchog' yn y blwch pwnc.

### Diweddariad hyrwyddo a datblygu masnach bwyd môr

- Mae Seafish yn datblygu **pecyn adnoddau addysg 'Pysgod Amdani'**, sy'n benodol i ysgolion yng Nghymru. Anelir y pecyn at blant 5 - 7 mlwydd oed ac fe'i cynlluniwyd i'w hannog i ddysgu mwy am les bwyd môr fel rhan o ddiel iach, cytbwys mewn ffordd sy'n hwyl ac yn ddifyr. Yn benodol, mae'r pecyn addysg yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o les i iechyd sy'n deillio o fwyta pysgod a bwyd môr ac sy'n seiliedig ar rywogaethau sy'n gyffredin i Gymru, er enghraifft cregyn gleision, crancod a draenogiaid y môr. Disgwylir i'r pecyn addysg gael ei lansio yn y Gwanwyn eleni pan fydd y pecynnau yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i ysgolion cynradd yng Nghymru. Os ydych yn dymuno darganfod mwy cysylltwch â [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk).
- Bydd y gorau o Fwyd Môr Cymru'n cael ei gyflwyno yn y digwyddiad Seafood masnachol mwya'r byd.** Yn dilyn arddangosfa lwyddiannus llynedd o gynnyrch bwyd môr Cymru yn [Seafood Expo Global](#), yn y digwyddiad bwyd

môr masnachol mwyaf yn y byd sy'n digwydd ym Mrwsel, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod am noddin stondin Cymru yn yr 22ain ffair, sydd wedi'i threfnu ar 6-8 Mai 2014.

Mae'r digwyddiad tridiau hwn yn denu dros fwy na 25,000 o brynwyr a chyflenwyr cynnyrch bwyd môr ffres, wedi eu rhewi, eu pecynnu a rhai â gwerth wedi'i ychwanegu, ac offer a gwasanaethau. Mae mynychwyr yn teithio o 145 o wledydd i gynnal busnes yn Expo Brwsel, <http://www.seafoodexpo.com/global/>.

Os ydych yn brynwr, cynhyrchydd neu'n ddarparwr gwasanaeth i ddiwydiant bwyd môr ac sydd â phresenoldeb yng Nghymru, efallai y gallwch wneud cais am **gymorth ariannol** i ddangos eich cynnyrch/gwasanaethau yn yr arddangosfa hon a chynyddu eich gwerthiant yn y farchnad bwyd môr byd-eang.

I ganfod mwy am y digwyddiad hwn a sut i wneud cais am le ar stondin Cymru, cysylltwch â José Constantino ar: 02920 826 207, neu anfonwch e-bost at: [jose.constantino@wales.gsi.gov.uk](mailto:jose.constantino@wales.gsi.gov.uk).

- Yn ychwanegol at gynlluniau Export Support, mae Adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn cynnig sawl cynllun cymorth a gwasanaethau wedi'u cyllido neu wedi'u cyllido'n rhannol i fusnesau bwyd. Mae rhain yn cynnwys; **Marchnata Bwyd Cyfan**, adnodd gwerthiant ymarferol sydd wedi'i deilwra ac adnodd marchnata sy'n cynnig mentora penodol a hyfforddiant, a **Mynd am Dwf**, rhaglen a grëwyd i gefnogi cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru sy'n chwilio am gyfle i dyfu eu busnes drwy brif gwsmeriaid masnach mân-werthu. Am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael cysylltwch ag Adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ar [ramdu@wales.gsi.gov.uk](mailto:ramdu@wales.gsi.gov.uk).
- Mae gan **Cywain Pysgod** gyllid ar gael i gynorthwyo sector pysgodfeydd i ychwanegu gwerth drwy datblygu cynnyrch a marchnadoedd newydd. Mae'r gwasanaeth ar gael i **bysgotwyr, gwerthwyr pysgod a busnesau acwafeithrin yng Nghymru**. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Caroline Dawson (gogledd Cymru) ar 01745 770272 neu Jon Parker (de Cymru) ar 07841 869893.
- **Hysbysebu'n RHAD ac AM DDIM i'ch busnes bwyd môr**. Ar hyn o bryd gallwch gofrestru eich busnes yn RHAD AC AM DDIM gyda 'Daliad Lleol' (Local Catch), a dim ond pum munud mae'n gymryd! Mae Ap y Daliad Lleol a'r wefan yn offer defnyddiol i helpu unrhyw un i ddod o hyd i fwyd môr yn lleol, naill ai pysgotwr lleol, gwerthwr pysgod, bwyty neu siop pysgod a sglodion! Bydd **Cywain Pysgod** a Seafish yn hyrwyddo Ap y Daliad Lleol a'r wefan ymhlith defnyddwyr yng Nghymru eleni. Am fwy o wybodaeth neu os hoffech gael cymorth i ychwanegu at eich busnes, teimlwch yn rhydd i gysylltu â Caroline Dawson yn **Cywain Pysgod** ar 01745 770272/ 07577 934106 neu [caroline.dawson@menterabusnes.co.uk](mailto:caroline.dawson@menterabusnes.co.uk).

### **Gwobrau Cenedlaethol Pysgod a Sglodion**

- Llongyfarchiadau i Hennighan's Top Shop ym Machynlleth ar ennill teitl rhanbarthol Cymru yng nghategori Siop Pysgod a Sglodion Prydau Parod Annibynnol yng Gwobr y Flwyddyn 2014 a drefnwyd gan Seafish. Yn y seremoni wobrwyo ym mis Ionawr yn Llundain, a lywyddwyd gan y cogydd enwog Jean-Christophe Novelli, enillodd Hennighan's Top Shop hefyd y wobwr gyntaf yn y Gwobrau Cyfraniad i Gymuned, i gydnabod ei gwaith elusennol helaeth a'i gwaith yn codi arian gyda'r gymuned leol. Gwelodd Gwobrau Pysgod a Sglodion Cenedlaethol y nifer uchaf erioed o geisiadau o Gymru, felly da iawn Hennighan's! Bydd gwobrau 2015 yn agor y Gwanwyn hwn. Mae cystadlu yng Ngwobrau Pysgod a Sglodion Cenedlaethol yn gyhoedduswydd ardderchog ac yn cynnig cyfleoedd marchnata, a gwelodd busnesau sydd wedi ennill yn y gorffennol eu trosiant yn cynyddu gymaint â 100% ar gefn eu llwyddiant yn y gwobrau. Am fwy o wybodaeth ar y buddion sydd i'w hennill o gymryd rhan a sut i wneud cais, ewch i <http://www.fishandchipawards.com/why-enter-the-awards/> a/neu e-bost [awardentry@seafish.co.uk](mailto:awardentry@seafish.co.uk). Gallwch hefyd ddilyn newyddion am y gwobrau ar Twitter @FishnChipAwards.

### **Cystadleuaeth Cogydd Ifanc Bwyd Môr y Flwyddyn y Deyrnas Unedig 2014**

- **Yn galw ar bob Cogydd sy'n Fyfyriwr!** Mae Cystadleuaeth Cogydd Ifanc Bwyd Môr y Flwyddyn y Deyrnas Unedig 2014 nawr yn agored. Gall colegau gael cynifer o dimau ag y maent eu heisiau, gyda phob tîm yn cynnwys dau gogydd sy'n fyfyrwr. Cynhelir cystadlaethau rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig ar 28 Mawrth 2014 yng Ngholeg Motherwell yn yr Alban, 25 Ebrill 2014 yn City College yn Norwich, **2 Mai 2014 yng Ngholeg Llandrillo**

**yng Ngogledd Cymru**, a 15 Mai 2014 yn South Devon College, gyda'r Gystadleuaeth Derfynol yn digwydd ar 13 Mehefin 2014 yn y Grimsby Institute, Swydd Lincoln. Am fwy o wybodaeth am y gystadleuaeth a sut i gymryd rhan ewch i <http://www.ukseafood.co.uk/index.php> neu ffoniwch 0800 012 6656. **Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw 7 Mawrth 2014.**

### **Hyfforddiant sgiliau pysgod a physgod cregyn**

- **Cyllid i hyfforddiant sgiliau pysgod a physgod cregyn yng Nghymru.** Mae trafodaethau yr wythnos diwethaf rhwng yr Academi Sgiliau Cenedlaethol i Fwyd a Diod ac Academi Hyfforddiant Seafood wedi dod â ni gam yn nes at gael at gyllid ar gyfer hyfforddiant yng Nghymru. Dylai Cyllid Blaenoriaethau Sector fod ar gael yn nes ymlaen ym mis Chwefror ar gyfer amrywiaeth o raglenni hyfforddiant Academy a Seafish, gan gynnwys asesu ansawdd datblygedig, coch, ffrio pysgod a gwerthu pysgod. Am fwy o wybodaeth ewch i [Wales Topic Page](#) ar wefan Seafood Academy.
- **Cyhoeddi Uwch Gwrs Asesu Ansawdd Pysgod.** Cynhelir yr uwch gwrs asesu ansawdd pysgod pum diwrnod nesaf yn Grimsby, yn dechrau ar 31 Mawrth 2014. Lleoedd cyfyngedig sydd ar gael. Bydd rhai ymgeiswyr yn debyg o fod yn gymwys ar gyfer arian Blaenoriaethau Sector tuag at gost y cwrs. Am fwy o fanylion ewch i <http://www.seafoodacademy.org/zzSeafoodQualityAssessmentadvancedMarch2014.htm>

### **Diweddariad hyfforddi alltraeth**

- Mae dyddiadau cyrsiau hyfforddi alltraeth yn Chwefror a Mawrth yn cynnwys:

#### **Aberystwyth**

Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch — 18 Chwefror

Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch — 25 Chwefror

#### **Aberdaugleddau**

Cwrs Un Dydd Ymwybyddiaeth o Sadrwydd — 12 Chwefror

Goroesi ar y Môr — 21 Chwefror

Cwrs Un Dydd Ymwybyddiaeth o Sadrwydd — 26 Chwefror

Cwrs Llywio Pum Diwrnod — 22, 23, 27, 28 Chwefror a 1 Mawrth

#### **Pwllheli**

Cymorth Cyntaf — 13 Chwefror

Ymladd Tân — 14 Chwefror

Goroesi ar y Môr — 15 Chwefror

Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch — 16 Chwefror

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle ar unrhyw un o'r cyrsiau hyn cysylltwch â Chymdeithas Hyfforddi Diwydiant Pysgota Môr Cyf ar [welsh.sfi@tiscali.co.uk](mailto:welsh.sfi@tiscali.co.uk) neu ar 01558 824099.

- **Mae cwrs gloywi hyfforddiant diogelwch am ddim** ar gael i bysgotwyr profiadol sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelwch dros dair blynedd yn ôl. Am fwy o wybodaeth gweler <http://www.seafish.org/training/seagoing-training/safety-training/refresher-training> neu ffoniwch cymdeithas Hyfforddi Diwydiant Pysgota Môr Cymru Cyf ar 01558 824099
- Roedd y ddau gwrs **Cyflwyniad i gyrsiau Pysgota Masnachol** gyllidwyd yn llawn a gynigiwyd gan y Ganolfan Forol yng Ngholeg Llandrillo wedi eu gordansgrifio, ac maent yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus ar hyn o bryd. Bwriedir i'r cwrs dair wythnos hwn annog ymgeiswyr newydd i'r diwydiant pysgota, ac mae'n darparu pob un o'r sgiliau sylfaenol sy'n hanfodol i ddechrau gweithio ar y môr. Mae Seafish yn amcanu cael at ragor o gyllid fel y gellir cyflwyno cyrsiau tebyg yn y dyfodol

## **Diweddariad cyllid Ewropeaidd**

- Mae Echelau 1 i 3 Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) yng Nghymru nawr wedi cau i geisiadau am gymhorthdal. Bydd Echel 4, fodd bynnag yn aros ar agor i gynigion prosiectau newydd tan ganol 2015.
- Mae Echel 4 Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) yn cynnig cymorth i **ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd pysgodfeydd**. Yn benodol, mae'n bwriadu hyrwyddo amrywiaeth economaidd a bywyd o ansawdd gwell mewn cymunedau pysgota. Cyflwynir Echel 4 gan Grwpiau Gweithredu Pysgodfeydd Lleol. Mae pedwar Grŵp Gweithredu Pysgodfeydd Lleol (FLAG) cydnabyddedig yng Nghymru, sef **Ynys Môn a Gwynedd, Bae Abertawe, Ceredigion a Sir Penfro**. Pwrpas FLAG yw sicrhau fod anghenion lleol yn cael eu diwallu drwy gyflwyno prosiectau sydd ag effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd y cymunedau pysgota sydd naill ai ar y goriwaered neu'n wynebu trafferthion eraill. Dros y 15 mis nesaf bydd y pedwar FLAG yng Nghymru yn cyflwyno prosiectau sy'n canolbwyntio ar amcanion sydd wedi'u gosod oddi fewn i'w strategaethau Datblygiad Lleol unigol.

Mae dros 300 FLAG yn gweithredu drwy'r Undeb Ewropeaidd, bob un â'r nod o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy eu pysgodfeydd lleol drwy bartneriaethau preifat/cyhoeddus. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn darganfod mwy am FLAG neu'n chwilio am syniadau prosiect FLAG, ewch i wefan FARNET am fwy o wybodaeth; <https://webgate.ec.europa.eu/fpfis/cms/farnet/>

I gysylltu â'ch grŵp FLAG lleol, gweler manylion cyswllt perthnasol isod:

- **FLAG Gwynedd a Môn** — *Jane Davies* — 01248 725704 neu [jane@mentermon.com](mailto:jane@mentermon.com)
- **FLAG Bae Ceredigion** — *Alison Kinsey* — 01545 574162/07583 847206 neu [alison.kinsey@ceredigion.gov.uk](mailto:alison.kinsey@ceredigion.gov.uk)
- **FLAG Sir Penfro** — *Jon Parker* — 07841 869893 neu [camnesa@gmail.com](mailto:camnesa@gmail.com)
- **FLAG Bae Abertawe** — *Paul Relf* — 01792 636858 neu [paul.relf@swansea.gov.uk](mailto:paul.relf@swansea.gov.uk)

## **Cyfarfodydd a digwyddiadau cyn bo hir**

- Grŵp Pysgodfeydd gyda'r glannau (IFG) Gogledd — Porthaethwy — 6 Chwefror
- IFG De — Caerfyrddin — 11 Chwefror
- IFG Canolbarth — Aberystwyth — 12 Chwefror
- Cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Pysgodfeydd Morol Wales — 24 Mawrth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech wybodaeth bellach am unrhyw un o'r pynciau uchod, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi: [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk) neu ar 07984 561 918. Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn gadewch i mi wybod, ac fe dynnaf eich enw oddi ar y rhestr bostio.

Anfonir e-cylchlythyr nesaf Seafish Cymru dros benwythnos 31 Mawrth 2014.

## **Paratowyd gan Holly Whiteley, Seafish Cymru**

M: +44 (0) 7984 561918 | E: [holly.whiteley@seafish.co.uk](mailto:holly.whiteley@seafish.co.uk) | W: [www.seafish.org](http://www.seafish.org)

Dilynwch Seafish ar Trydar [www.twitter.com/seafishuk](https://www.twitter.com/seafishuk)

Dilynwch fi ar Trydar ar [www.twitter.com/SeafishHolly](https://www.twitter.com/SeafishHolly)